Annwyl Swyddog Arholiadau


**Arholiadau Mynediad Prifysgol Aberystwyth: Dydd Mawrth, 3 Chwefror 2026**

Diolch am gytuno i gynnal Arholiadau Mynediad Prifysgol Aberystwyth yn eich Ysgol/Coleg eleni. Mae disgyblion yn eich ysgol/coleg wedi wedi gwneud cais i sefyll yr Arholiadau Mynediad dan eich goruchwyliaeth chi. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth ynglŷn a'r disgyblion hyn yn ein **Porth i Swyddogion Arholiadau** **newydd**. *Sylwch nad yw'r porth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, ac mi fydd hyn yn cael ei ddatrys cyn gynted a phosib. Ymddiheuriadau am unrhyw anghyfleustra.*


## Porth i Swyddogion Arholiadau, Mynediad i Bapurau Arholiad a Chofnodi Presenoldeb

Er mwyn gwneud pethau'n haws, rydym wedi creu porth Swyddog Arholiadau i chi gael mynediad i bapurau arholiad a chofnodi presenoldeb, gellir cael mynediad iddo yma: **Porth i Swyddogion Arholiadau**


Mewngofnodwch i'r porth Swyddog Arholiadau drwy nodi eich cyfeiriad ebost yn y blwch 'Username' fel y gwelir isod a pwyswch 'Sign In'




Byddwch yn derbyn côd mewngofnodi unigryw drwy ebost. Gall hyn gymryd ychydig funudau. Sicrhewch eich bod yn gwirio eich blychau spam / junk. Bydd y côd yn ddilys am 30 munud. I wneud cais am gôd newydd, mewnbynnwch eich cyfeiriad ebost eto a phwyso 'Sign In'. Os ydych yn cal problemau gyda'r porth, cysylltwch â ni ar ysgoloriaethau@aber.ac.uk, gan nodi presenoldeb neu'r papurau arholiadau sydd angen arnoch.





Unwaith byddwch wedi mewngofnodi, byddwch yn cael eich arwain i **‘Home’** ble mae modd i chi weld eich rhestr ymgeiswyr.





Yma, mae modd i chi weld pa bapurau arholiad y maent wedi eu dewis, ynghyd a’r iaith y maent wedi dewis eistedd yr arholiadau ynddi. Bydd hefyd modd i chi weld os ydynt wedi nodi unrhyw ofynion arbennig (gwelir isod):

| Subject1 Code | Subject1 | Subject1 Language | Subject1 Attended | Subject2 Code | Subject2 | Subject2 Language | Subject2 Attended | Special Requirements |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N100 | Business, Accounting & Marketing | English | | L100 | Economics | English | | |

I lawrlwytho’r papurau arholiad, pwyswch ‘**Exam Subjects and Papers’**.





Chwiliwch am y papur cywir drwy ddefnyddio’r blwch ‘chwilio’ neu wrth fynd i lawr drwy’r rhestr.




I lawrlwytho'r papur arholiad, sicrhewch eich bod yn pwyso ar y papur sydd mewn glas, yn yr iaith y mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais amdano. (Mae'r wybodaeth yma ar gael yn eich rhestr ymgeiswyr yn y sgrin '**Home'**). Dylai'r papur lawrlwytho yn awtomatig. Os ydych yn cael problemau, cysylltwch ag ysgoloriaethau@aber.ac.uk.

| | Subj Code | Description | Welsh Description | Download Exam Paper | Download Welsh Exam Paper |
|---|---|---|---|---|---|
| | W150 | Art History | Hanes Celf | Art History.pdf | Hanes Celf.pdf |

I ddod o hyd i bapurau eraill bydd angen i chi ddileu'r cais chwilio blaenorol drwy bwyso '**X**' cyn chwilio am y papur nesaf (gwelir isod)





Dylid rhoi copi wedi ei argraffu o'r papur arholiad i ymgeiswyr (at ddibenion cyfeirio yn unig) a byddant yn ysgrifennu eu hatebion mewn Dogfen Word (gweler Trefniadau Arholiad isod am ragor o wybodaeth).

Ar ôl pob arholiad, cofnodwch bresenoldeb ymgeiswyr drwy ddychwelyd i'r sgrin '**Home**' i'ch rhestr ymgeiswyr. Sylwch fod colofn **'Subject 1 Attended'** a **'Subject 2 Attended'** wrth ymyl pynciau arholiad dewisol pob ymgeisydd (gweler isod):

| Subject1 Code | Subject1 | Subject1 Language | Subject1 Attended | Subject2 Code | Subject2 | Subject2 Language | Subject2 Attended |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| N100 | Business, Accounting & Marketing | English | | L100 | Economics | English | |

Gofynnwn i chi gofnodi presenoldeb bob ymgeisydd ar gyfer bob arholiad drwy ddewis '**Yes / No'** o'r opsiynau. **Bydd angen i chi bwyso ar y blwch priodol i'r opsiwn yma ymddangos.**




Chi fel Swyddog Arholiadau sy'n penderfynu ar y drefn y mae'r ymgeisydd yn sefyll yr arholiadau, fodd bynnag, os yw'r drefn yn wahanol i'r rhestr, gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau'r golofn '**Subject2 Attended'** yn gyntaf.

## Beth yw Arholiadau Ysgoloriaeth a Gwobrau Teilyngdod Prifysgol Aberystwyth?

Mae Arholiadau Ysgoloriaeth a Gwobrau Teilyngdod Prifysgol Aberystwyth yn arholiadau ar-lein gwbl ddewisol sy'n rhoi cyfle i'n hymgeiswyr israddedig sicrhau dyfarniad ariannol a/neu gynnig diamod.

Fel arfer caiff arholiadau eu cwblhau ar gyfrifiadur ysgol/coleg gan ddefnyddio Microsoft Word, a'u cyflwyno'n electronig i amgylchedd dysgu rhithwir y Brifysgol, Blackboard. Ceir rhagor o fanylion yn y ddogfen hon.

## Amserlen

Rydym yn hyblyg o ran amseroedd cychwyn arholiadau, cyn belled â bod y ddau arholiad yn cael eu sefyll ar y diwrnod penodedig. Yn anffodus, ni allwn newid dyddiad yr arholiad. Rydym wedi gofyn i ymgeiswyr gysylltu â Swyddogion Arholiadau mewn da bryd fel eu bod yn gwybod ble ac ar ba adegau y bydd eu harholiadau yn cael eu cynnal.
Isod mae *esiampl* o amserlen ar gyfer arholiadau mewn ysgolion/colegau allai fod yn ddefnyddiol i chi, fodd bynnag gallwch osod eich amseroedd cychwyn arholiadau eich hun yn seiliedig ar amgylchiadau penodol eich ysgol / coleg.

| | |
|---|---|
| 10:30 – 12:00 | Arholiad 1 |
| 12:00 – 13:00 | Egwyl Cinio |
| 13:15 – 14:45 | Arholiad 2 |

## Cyn diwrnod yr arholiadau

Gwnewch yn siŵr bod ymgeiswyr yn ymwybodol o leoliad ac amseroedd dechrau eu harholiadau, eu bod wedi actifadu eu cyfrif Prifysgol Aberystwyth, (bydd ymgeiswyr yn derbyn y manylion drwy ebost gennym yn ystod yr wythnos yn dechrau 26 Ionawr) a'u bod wedi ymarfer cyflwyno papur arholiad erbyn **4pm, dydd Gwener 30 Ionawr 2026**. Mae manylion ar sut i ymarfer cyflwyno papur arholiad i'w gweld yn ein **Canllawiau i Ymgeiswyr**. Gwnewch yn siŵr hefyd fod ymgeiswyr wedi ymgyfarwyddo â'r broses arholiadau (gweler 'Gwybodaeth i Ymgeiswyr' isod).

## Trefn yr arholiadau

Ar ddiwrnod yr arholiadau, dylid rhoi copi wedi ei argraffu o'r papur arholiad perthnasol i bob ymgeisydd ar ddechrau pob sesiwn arholiad. Gellir rhoi papur llinell i ymgeiswyr os ydynt yn dymuno gwneud nodiadau ychwanegol.

Mae gan ymgeiswyr 1.5 awr (ynghyd ag unrhyw amser ychwanegol y mae ganddynt hawl iddo – er

enghraifft, ymgeiswyr sy'n gymwys i gael amser ychwanegol yn ystod arholiadau ysgol, gweler ein polisi ar addasiadau rhesymol am ganllawiau pellach) i gwblhau pob arholiad. Dylid cwblhau pob arholiad mewn dogfen Word (gweler yr eithriadau isod). Dylid cadw papurau fel: Cyfenw_Enw Cyntaf_Pwnc.

## Eithriadau – Mathemateg, Mathemateg Bellach a Ffiseg

**Mathemateg a Mathemateg Bellach**

Bydd arholiadau Mathemateg a Mathemateg Bellach yn cael eu cwblhau ar bapur llinell, yn hytrach nag ar gyfrifiadur. Rhowch bapur llinell A4 i ymgeiswyr i gwblhau'r papur. Darperir tablau ystadegol ar yr arholiadau Mathemateg ar dudalen we lawrlwytho papurau arholiad.

Bydd gofyn i ymgeiswyr sy'n sefyll yr arholiadau Mathemateg a Mathemateg Bellach gyflwyno eu papurau i 'Blackboard Assignments' a bydd canllawiau pellach yn cael eu hanfon at ymgeiswyr cyn yr arholiadau, ac mae copi o'r Canllawiau ar gael **yma.**

**Ffiseg**

Ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr Ffiseg blotio graffiau na thynnu lluniau yn ystod yr arholiad, golyga hyn fod modd iddynt gwblhau'r arholiad ar Microsoft Word. Fodd bynnag, oherwydd natur gymhleth yr atebion ysgrifenedig rydym yn hapus i ymgeiswyr gwblhau eu harholiad ar bapur llinell os y dymunant, bydd gofyn i chi sganio rhain a'i danfon at ysgoloriaethau@aber.ac.uk .

## Goruchwylio

Mae'n rhaid i ymgeiswyr gael eu goruchwylio gan aelod o staff o dan amodau arholiad arferol. Nid oes angen goruchwylio ymgeiswyr yn ystod yr egwyl rhwng y sesiynau arholiad.

## Anghenion ychwanegol ac anghenion arbennig

Mae gan ymgeiswyr hawl i'r un ystyriaethau y maen nhw'n eu derbyn ar gyfer arholiadau ysgol arferol ac mae ein polisi ar addasiadau rhesymol ar gael ar ein gwefan. Pan fydd ymgeiswyr wedi ein hysbysu o unrhyw ofynion, rhestrir y rhain wrth ymyl eu henw ar dudalen gyntaf y ddogfen hon. Gofynnwn i Swyddogion Arholiadau e-bostio ysgoloriaethau@aber.ac.uk i gadarnhau'r ystyriaethau arbennig y mae gan ymgeiswyr yr hawl i'w derbyn.

Os oes unrhyw faterion yn codi ble mae angen i arholwyr Prifysgol Aberystwyth fod yn ymwybodol ohonynt (e.e digwyddiad sy'n tarfu ar arholiadau neu salwch) anfonwch e-bost at ysgoloriaethau@aber.ac.uk a byddwn yn sicrhau bod yr Arholwyr perthnasol yn cael gwybod.

## Gofynion pwnc-penodol

Ni chaniateir i ymgeiswyr gymryd ffonau symudol, oriawr 'smart' nac unrhyw ddyfeisiau digidol tebyg i'r arholiadau. Oni nodir yn wahanol isod, ni ellir defnyddio unrhyw destunau, geiriaduron, atlasau neu ddogfennau neu offer eraill. Bydd yr ymgeiswyr yn sefyll dau bapur arholiad, oni bai eu bod yn cyflwyno portffolio o waith celf neu ffotograffiaeth yn lle un o'r papurau arholiad.

- **Cyfrifianellau** - caniateir defnyddio cyfrifianellau an-raglenadwy (ar yr amod eu bod yn ddistaw, hunan-bweru, heb gyfleusterau cyfathrebu, ac yn gallu dal testun neu ddeunydd arall y gellid ei ddefnyddio i gael mantais annheg) **ar gyfer: Busnes, Cyllid a Marchnata, Cemeg, Economeg, Mathemateg a Ffiseg.** Dylai ymgeiswyr ddarparu eu cyfrifiannell eu hunain.

- Portffolio Celfyddyd Gain – rhaid i ymgeiswyr sydd wedi dewis cyflwyno Portffolio

Celfyddyd Gain drefnu i gyflwyno eu portffolio ar, neu cyn, dyddiad yr arholiadau. Ceir rhagor o wybodaeth ar gyfer yr ymgeiswyr hyn ar ein tudalen we Trosolwg Pwnc.

- **Cemeg** – darperir tabl cyfnodol fel rhan o'r papur arholiad.
- **Mathemateg** a **Mathemateg Bellach** - gall ymgeiswyr fynd ag unrhyw 'Lyfrynnau Gwybodaeth' a gymeradwywyd gan eu bwrdd arholi i'w defnyddio mewn arholiadau, fodd bynnag, darperir Tablau Ystadegol sydd yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen.
- **Ffiseg** – bydd yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chynnwys o fewn y papur, ond gall ymgeiswyr fynd ag unrhyw 'Lyfrynnau Gwybodaeth' a gymeradwywyd gan eu bwrdd arholi i'w defnyddio yn yr arholiadau os dymunant.

## Cyflwyno papurau arholiad

Ar ôl i'r arholiad gael ei gwblhau, gall ymgeiswyr gael mynediad i'r we a chyflwyno'r papur drwy Blackboard – bydd dolen gyflwyno yn cael ei rhannu ag ymgeiswyr cyn dyddiad yr arholiad.

Sicrhewch fod ymgeiswyr ond yn cael mynediad i'r we ar ôl i'r arholiad gael ei gwblhau a pan **fyddant yn barod i gyflwyno eu papurau.**

Bydd angen sganio unrhyw bapurau ysgrifenedig a'u hanfon at ysgoloriaethau@aber.ac.uk. Gwnewch yn siŵr bod unrhyw bapurau wedi'u sganio yn cynnwys enw llawn y myfyriwr, ID UCAS a theitl pwnc yr arholiad, a bod y tudalennau wedi'u rhifo a'u hanfon yn y drefn cywir.

Os ydych chi'n cael anawsterau gyda phorth Blackboard, cadwch gopi o'r papur arholiad gorffenedig ar USB a'i anfon i ysgoloriaethau@aber.ac.uk .

## Gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr

Mae copi o'r Canllawiau ar gyfer Ymgeiswyr i'w gweld ar ein gwefan.

Yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 26 Ionawr, bydd ymgeiswyr yn derbyn:

- **E-bost atgoffa o'r pynciau y maent wedi dewis eu sefyll cyn yr arholiadau**. Fe'u hanogir hefyd i roi gwybod i ni a'u swyddogion arholiadau am unrhyw newidiadau i'w papurau.
- **Ebost yn cynnwys manylion ar sut i actifadu cyfrif Prifysgol Aberystwyth** fel y gallant actifadu eu cyfrif cyn diwrnod yr arholiadau a chyflwyno papur ymarfer erbyn 4pm, dydd Gwener 30 Ionawr.
- **Dogfen ganllawiau fanwl** sy'n amlinellu sut i ymarfer uwchlwytho cyflwyniadau a sut i gyflwyno eu papurau i Turnitin a Blackboard Assignment ar ddiwrnod arholiadau. Mae Turnitin a Blackboard Assignment yn offer e-gyflwyno a ddefnyddir gan fyfyrwyr i gyflwyno eu gwaith yn electronig.

**Sicrhewch fod ymgeiswyr wedi cwblhau'r camau i actifadu ei cyfrif Prifysgol Aberystwyth cyn yr arholiadau fel bod modd iddynt fewngofnodi i'n hamgylchedd dysgu rhithwir a chyflwyno eu papurau arholiad gorffenedig.** Os yw ymgeiswyr yn anghofio eu manylion mewngofnodi gallant e-bostio ysgoloriaethau@aber.ac.uk i ailosod ei cyfrinair. Sylwch y gall gymryd hyd at awr i'r newid hwn gael effaith.

## Gofynion TG

1. Mae cyfrifiadur/gliniadur ysgol/coleg gyda Microsoft Word (neu becyn prosesu geiriau tebyg) wedi'i osod (os yn bosibl, galluogwch autosave). Nid oes angen analluogi *spellcheck*

ond gofynnwn i chi sicrhau nad yw'r ymgeiswyr yn mynd ar y rhyngrwyd na phecynnau meddalwedd eraill yn ystod yr arholiad.

2. Cysylltiad rhyngrwyd sefydlog ac un ai porwr gwe Chrome, Firefox neu Edge er mwyn cyflwyno'r papurau arholiad ar ôl eu cwblhau.
3. Gofynnwch i'ch Tîm Cymorth TG i sicrhau bod y gosodiadau Firewall yn caniatáu i ymgeiswyr gael mynediad i Blackboard.

## Canlyniadau

Byddwn yn cysylltu â'r holl ymgeiswyr a Swyddogion Arholiadau 4-6 wythnos o'r arholiadau a gynhelir i roi gwybod iddynt a ydynt wedi bod yn llwyddiannus, neu'n aflwyddiannus yn eu hymgais i sicrhau Ysgoloriaeth Prifysgol, Gwobr Teilyngdod, a/neu Gynnig Diamod yn seiliedig ar eu perfformiad yn yr arholiadau.

## Cwestiynau cyffredin - Gweler hefyd ar y wefan.

**C: Beth os nad ydyn ni'n gallu darparu cyfrifiadur ar gyfer yr arholiadau?**
Rhowch bapur llinell A4 i ymgeiswyr. Ar ôl i'r arholiad orffen, sganiwch y ddogfen a'i danfon i ysgoloriaethau@aber.ac.uk.

**C: Beth ddylwn i ei wneud os na all ymgeisydd gael mynediad i Blackboard, neu gyflwyno eu papur arholiad gan ddefnyddio pwynt cyflwyno Turnitin yn Blackboard?**

1. Gwiriwch y cyfeiriad ar y we: https://blackboard.aber.ac.uk
2. Sicrhewch fod yr ymgeiswyr wedi gwirio'r enw defnyddiwr a'r cyfrinair iawn a'u teipio'n gywir.
3. Gofynnwch i'r ymgeisydd gau'r porwr gwe i lawr yn llwyr (nid lleihau) yna ailgychwyn a cheisio cyflwyno eto.
4. Os nad ydy'r uchod yn gweithio, dylai ymgeiswyr e-bostio eu papur gorffenedig i ysgoloriaethau@aber.ac.uk – tra'ch bod yn gwylio. Gwnewch yn siŵr bod pob papur yn cael ei labelu gydag enw a phwnc y myfyriwr e.e. Evans_Sam_Bioleg

**C: Beth pe bai ymgeisydd yn absennol ar gyfer un arholiad neu fwy?**
Gofynnwn i chi gofnodi cofrestr ymgeiswyr ar y porth ar-lein, gallwch gael mynediad iddo yma: **Porth i Swyddogion Arholiadau.** Os yw absenoldeb ymgeisydd o natur sensitif, ebostiwch ysgoloriaethau@aber.ac.uk

**C: Canllawiau a Pholisïau a allai fod yn ddefnyddiol:**
Canllawiau Arholiadau i Ymgeiswyr
Polisi ar wneud addasiadau rhesymol i ymgeiswyr sy'n sefyll yr Arholiadau
Polisi ar Ymddygiad Academaidd da ac annheg ar gyfer yr Arholiadau

Diolch yn fawr iawn am eich cymorth gyda threfniadau'r arholiadau.
Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ewch i dudalen gwe'r Arholiadau neu cysylltwch â'r Tîm Ysgoloriaethau trwy ysgoloriaethau@aber.ac.uk